# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a gyhoeddwyd gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 13 Ionawr 2010

**At Nerys Evans:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 8fed Rhagfyr gwnaethoch godi dau fater gydag Arweinydd y Tŷ am gam-drin domestig a sut y gwnaeth Heddlu De Cymru ddelio â honiad o drais rhywiol a cham-drin.

Mewn ymateb i'r materion hyn hoffwn wneud y sylwadau canlynol:

Yn gyntaf, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ar 5ed Ionawr sy'n nodi amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ar strategaeth integredig newydd i ddelio â thrais yn erbyn merched a cham-drin domestig.

Mae'r honiad yn erbyn Heddlu De Cymru ynghylch sut y gwnaethant ddelio ag achos o drais rhywiol a cham-drin yn fater iddynt hwy a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Fodd bynnag, mae Heddlu De Cymru wedi cyflwyno'r wybodaeth ganlynol i mi:

"Ers mis Ebrill 2008, mae llawer wedi'i wneud i wella ymchwiliadau trais rhywiol yn Ne Cymru. Er enghraifft:-

1. Cau holl ystafelloedd archwilio ymosodiadau rhywiol Heddlu De Cymru ac agor dwy Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ychwanegol, wedi'u hariannu'n rhannol gan Heddlu De Cymru. Ar hyn o bryd mae tair canolfan o'r fath yn ardal Heddlu De Cymru ym Merthyr, Caerdydd ac Abertawe (dim ond 20 sydd yn y DU). Yn ogystal â darparu ymateb ymchwiliol proffesiynol i drais rhywiol mae hyn yn sicrhau bod pob dioddefwr yn cael cynnig cwnsela a chyngor proffesiynol.

2. Erbyn hyn, mae pob ymchwiliad i drais rhywiol yn derbyn sicrwydd ansawdd gan Adran Troseddau Mawr yr heddlu ac Adran Diogelu'r Cyhoedd yn ddyddiol.

3. Mae Polisi Trais Rhywiol yr heddlu yn cydymffurfio'n llwyr â safonau cenedlaethol.

4. Mae hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu i'r holl uwch-swyddogion ymchwilio presennol.

5. Mae ymgyrchoedd atal trais/ymosodiadau rhywiol wedi eu cynnal dros yr Haf a'r Nadolig. Mae templedi De Cymru o 2008 wedi cael eu derbyn fel yr arfer gorau ac fe'u defnyddiwyd fel y templed cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2009.

6. Mae Gweithgor Troseddau Rhywiol wedi ei sefydlu gan yr heddlu i fonitro ac adolygu ymchwiliadau trais rhywiol sydd heb eu datrys.

Arolygwyd yr heddlu yn ddiweddar gan Weithgor Trais Rhywiol yr ACPO, a chafwyd adborth gwych ar gyfer yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'n hasiantaethau partner. Ar hyn o bryd, Heddlu De Cymru sydd â'r raddfa uchaf ar gyfer darganfod trais rhywiol yng Nghymru a Lloegr."

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth bellach hon yn egluro'r pwyntiau a godwyd gennych yn y Drafodaeth Lawn ar 8fed Rhagfyr.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a gyhoeddwyd gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 16 Ionawr 2010**

**At William Graham:**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch ymholiad i'r Prif Weinidog ynglŷn â Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru a godwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Rhagfyr 2009.

Fel y gwyddoch, cytunodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol blaenorol, Dr Brian Gibbons AC, i fynd ati i sefydlu un Tribiwnlys Prisio i Gymru, ar ôl i'r argymhelliad hwnnw gan Adolygiad Rolph fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y penderfyniad hwn yn arwain at uno'r pedwar tribiwnlys prisio presennol yng Nghymru, a chredaf drwy hynny y bydd yn cefnogi arfer cyson ar draws y tribiwnlys, ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd. Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer y Tribiwnlys newydd, ac mae fersiwn ddrafft y diwygiadau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, gyda'r nod o ddod i rym ar 1af Ebrill 2010.

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y canlynol:

- sefydlu un Tribiwnlys Prisio i Gymru;
- ethol Llywydd cenedlaethol gan, ac o blith aelodau'r Tribiwnlys Prisio newydd, gyda phob aelod yn bwrw un pleidlais;
- ethol cynrychiolwyr rhanbarthol a dirprwyon ar gyfer pob un o'r pedair rhanbarth yng Nghymru, gyda phob rhanbarth yn cyfateb i ffiniau presennol y pedwar Tribiwnlys Prisio sy'n bodoli eisoes;
- Cyngor Llywodraethu i gynnwys un Llywydd Cenedlaethol, pedwar cynrychiolydd rhanbarthol ac aelod annibynnol i'w benodi gan Weinidogion Cymru.

Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol am y posibilrwydd o golli hunaniaeth leol, penderfynwyd y dylai'r Cyngor Llywodraethu gynnwys cynrychiolwyr lleol, ac y dylid parhau â'r drefn o aelodaeth leol, heb newid y broses benodi ar gyfer aelodau. Ni fydd aelodau'r tribiwnlys yn teithio y tu allan i'w rhanbarth, neu dros bellter penodol i fynd i wrandawiadau, oni bai eu bod yn dewis gwneud hynny. At hynny bydd y Tribiwnlys newydd yn cynnal presenoldeb yn rhanbarthau Cymru, ynghyd ag aelodaeth leol. Drwy barhau i eistedd mewn lleoliadau hygyrch, byddai Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth lleol, ac yn lleddfu'r pryderon ynglŷn â cholli hunaniaeth leol.

Cynigwyd y newidiadau hyn er mwyn darparu arweinyddiaeth gryfach, a hyrwyddo gwell safonau o ran gwneud penderfyniadau, dull gweithredu cyson a lledaenu arfer da. Nid yn unig y dylai hyn gynyddu effeithlonrwydd y gwasanaeth a ddarperir, ond dylai hefyd ddarparu gwell profiad i'r cwsmer yn gyffredinol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru sy'n wynebu'r dasg anodd a brawychus yn aml o apelio yn erbyn eu bandiau treth gyngor neu ardreth annomestig genedlaethol.

I ateb eich ymholiad ynglŷn â'r bobl hynny sy'n wynebu'r dasg o gyflwyno apêl, prin fydd yr effaith arnynt hwy, heblaw bod disgwyl i brofiad y cwsmer wella yn yr hirdymor. Bydd Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth lleol i drethdalwyr unigol. O ran y bobl hynny sy'n dymuno apelio, bydd y rheolau presennol yn parhau mewn grym. Ni fydd unrhyw newid i'r broses apelio neu i'w hawl i apelio. Mae'r rheoliadau yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd yn ymwneud a threfn strwythurol y gwasanaeth yn unig, ac nid y broses o gyflwyno apêl.

Deallaf eich pryder o ran nifer yr apeliadau a ddisgwylir o 1af Ebrill 2010, pan ddaw'r ail-brisiad eiddo annomestig i rym. Dengys yr amcangyfrifiadau presennol y bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cael tua 35,000 o ymholiadau mewn perthynas â'r ailbrisio dros oes pum mlynedd y rhestr, gan arwain at tua 1,500 o apeliadau ffurfiol yn cael eu clywed gan Wasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru. Fodd bynnag, rhaid cofio bod yr ailbrisiad eiddo annomestig yn digwydd pob pum mlynedd yng Nghymru a Lloegr, ac fel y cyfryw, mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Tribiwnlysoedd Prisio yng Nghymru brofiad o ymdrin â chyfnodau o'r fath lle ceir mwy o apeliadau na'r arfer. Amgaeaf, er gwybodaeth, ddatganiad diweddar ynglŷn â'r ailbrisiad eiddo annomestig a'm cynnig i ddiwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 er mwyn cynyddu lefel y prif drothwyon rhyddhau.

Gobeithiaf fy mod wedi ateb eich ymholiadau, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch atgoffa mai'r dyddiad cau ar gyfer y cyfnod ymgynghori ar y rheoliadau drafft yw 2 Chwefror 2009. Mae'r ddogfen ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/singlevaluation/?lang=cy
Mae croeso i chi wneud sylwadau.

**Gwybodaeth ychwanegol at y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 19 Ionawr 2010**

**At Bethan Jenkins:**

Yn ystod y Cwestiynau a ofynnwyd i Arweinydd y Tŷ ar 8 Rhagfyr, codwyd pryderon gennych ynghylch darpariaeth gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Addawodd Arweinydd y Tŷ y byddwn yn ysgrifennu atoch chi ynglŷn â'r pwyntiau a wnaethoch.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi fy sicrhau bod y newidiadau yn yr Ysbyty wedi'u gwneud i wella gofal cleifion oedrannus bregus, gan gynnwys defnyddio gwelyau mwy priodol a'r cyfleusterau sydd wedi'u hagor yn ddiweddar yn Ysbyty Cimla. Rwy'n deall bod y newidiadau hyn wedi'u trafod yn llawn gyda sefydliadau ochr y staff, y Cyngor Iechyd Cymuned a swyddogion o Gyngor Castell-nedd Port Talbot a'u bod yn gwbl gefnogol iddynt.

Bydd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot hefyd yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys Canolfan Ddamweiniau Leol sydd ar agor 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos, cyfleusterau i dderbyn achosion meddygol brys, llawdriniaethau sydd wedi'u cynllunio ac ystod gynhwysfawr o wasanaethau cleifion allanol, therapi a diagnosis.

Rwyf hefyd yn deall bod y Prif Weithredwr wedi cyfarfod â phob un o aelodau'r Cynulliad a'r grwpiau lleol eraill i sicrhau eu bod yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn.

Rwy'n gobeithio bod hyn o gymorth ichi.